# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 14EG HYDREF, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 7 Hydref 2025)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| John Pughe | Aelod Lleol Morfa Tywyn |
| Anne Lloyd-Jones | Aelod Lleol Gorllewin Tywyn |
| Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Josh Cooper | RNLI Aberdyfi |
| David Williams | Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Gwilym Jones | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2025/26.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am unrhyw absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitem ar frys ar gais y Cadeirydd.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 4 - 12

I dderbyn adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar y 17 Mawrth 2026.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| **Dyddiad:** | 14-Hydref-2025 |
| **Awdur:** | Uwch Swyddog Harbwr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth |

## 1 CEFNDIR

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth.

**<u>Data Perfformiad</u>**

2.2 Mae'r data isod yn cael ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

| | **2023/4** | **2024/5** | **2025/6** |
|---|---|---|---|
| **Cytundebau Angori** | | | |
| Porthmadog | 106 | 109 | 106 |
| Abermaw | 71 | 78 | 81 |
| Aberdyfi | 73 | 79 | 83 |

2.3 Fel y gwelir, mae'r ffigyrau ar gyfer cytundebau angori yn nhymor 2025 yn cymharu'n ffafriol â blynyddoedd cynt, er bod amrywiadau rhwng harbyrau unigol, mae'r ffigyrau cyffredinol wedi aros yn gyson, sy'n gadarnhaol.

2.4 Bu cynnydd o 10% yn nifer y cychod pŵer a gofrestrwyd gyda Chyngor Gwynedd y tymor hwn o gymharu ag y llynedd, yn codi o 2,141 i 2,362.

2.5 Mae'r Gwasanaeth yn gofyn yn garedig i'r holl gyflenwyr/deiliaid angorfeydd ddarparu manylion yr holl gychod a chwsmeriaid i swyddfa'r harbwr cyn gynted â phosib.

2.6 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar lefelau boddhad defnyddwyr yr harbwr:

**Cyfradd canran boddhad yr harbyrau a reolir gan y Gwasanaeth Morwrol**

| | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| **Boddhad Cwsmer** | | | |
| Rhagorol | 40% | 60% | 63% |
| Da iawn | 30% | 24% | 25% |
| Boddhaol | 20% | 16% | 6% |
| Gwael | 10% | 0% | 2% |
| Gwael Iawn | 0% | 0% | 0% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 4% |

2.6.1 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos y cynnydd mewn adborth 'positif' a dderbyniwyd yn ein harbyrau, ynghyd â'r ymdrechion a wnaed gan yr adran i wella profiad y cwsmer ac ymwelwyr ymhellach.

**2.6.2 <u>Adborth a gafwyd am Harbwr Aberdyfi:</u>**

**Ymatebion positif:**

- Mae staff yr harbwr yn "gymwynasgar, cwrtais, gwybodus a chroesawgar iawn"
- "Roedd mordwyo yn yr harbwr wedi'i farcio'n dda ac wedi'i esbonio'n glir".
- "Mae staff yn mynd 'tu hwnt' i'w dyletswydd yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau gwaith i sicrhau diogelwch morwyr a chychod".
- "Mae'r staff yn rhagweithiol iawn yn yr harbwr a'r traeth, gan ddarparu arhosiad hamddenol a mwy pleserus. Roedd y parth gwahardd cŵn wedi'i fonitro a'i arwyddo'n dda."
- "Mae gan yr harbwr gei newydd grêt gyda chyfleusterau gwych, mae bob amser yn lân ac yn daclus ac mae golygfeydd anhygoel o'i amgylch".

**Ymatebion negyddol:**

- "Nid oes gan ddefnyddwyr Jet Skis unrhyw ddealltwriaeth o reoliadau – dylid eu gwahardd"
- "Mae fy angorfa wedi cael ei symud i leoliad gwahanol i'r flwyddyn gynt, pam? Gallai'r cyfathrebu fod wedi bod yn well"
- "Mae angen carthu'r harbwr!"
- "Mae'r grisiau wrth ochr y cei yn anaddas ar gyfer dadlwytho pobl ac mae'n anodd clymu ar hyd ochr wal y cei".
- "Mae caban dros dro yr Harbwrfeistr yn ddiolwg ac nid yw'n addas i'r Harbwr"

Rydym yn croesawu ac yn cydnabod pob adborth a gawn am ein harbyrau, a byddwn yn parhau i drafod unrhyw faterion neu bryderon a godwyd er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach.

2.7 Mae'r Cod Diogelwch Morol a Chyfleusterau Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. I sicrhau ein bod yn cydymffurfio, caiff ein harbyrau eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwr allanol. Mae'n bleser gennym gadarnhau penodiad diweddar Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr ar gyfer Cyngor Ceredigion, fel ein 'Person Dynodedig' newydd. Bydd Mr Morgan yn cynnal yr archwiliad nesaf yn ystod misoedd y gaeaf a bydd yn rhoi arweiniad i ni i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion diweddaraf y PMSC. Yn dilyn yr archwiliad hwn bydd y gwasanaeth yn cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r cod ar wefan gyhoeddus y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r PMSC, rydym yn cynnig cyfleodd hyfforddiant a datblygiad parhaus i'n staff morwrol. Rydym yn falch o gyhoeddi bod un aelod o staff yn ddiweddar wedi cwblhau'r 'Diploma Harbwrfeistr' tra bod aelod arall wedi dechrau'r cwrs 'UKHMA Harbour Master Certificate' diweddaraf - dymunwn bob llwyddiant iddynt gyda'u datblygiad proffesiynol.

2.8 Oherwydd natur eu gwaith, yn anffodus mae ein swyddogion weithiau'n profi ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol. Er mwyn sicrhau diogelwch staff a'r cyhoedd, mae swyddogion nawr yn gorfod gwisgo camerâu ar eu cyrff i roi gwarchodaeth iddynt ac i recordio unrhyw ddigwyddiadau.

2.9 MAIB (Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol): Mae'n bleser gennym gyhoeddi nad oes unrhyw ddigwyddiadau morwrol neu ddamweiniau wedi'u hadrodd i 'MAIB' hyd yn hyn eleni.

**2.10 <u>Trinity House GLA (Awdurdod Goleudy Cyffredinol)</u>**

Un o brif flaenoriaethau'r gwasanaeth yw sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd. Fel 'LLA' (Awdurdod Goleudy Lleol) cofrestredig, rydym yn cynnal arolygon rheolaidd o sianel yr harbwr i sicrhau bod yr holl Gymhorthion Mordwyo Lleol wedi'u lleoli'n gywir ac yn gweithio'n iawn. Mae arolygon a chofnodion ar gyfer A i N yn cael eu llwytho i fyny i gronfa ddata Trinity House. Daeth yr adroddiad diweddaraf i'r casgliad bod 95.47% o Gymhorthion Mordwyo Cyngor Gwynedd ar gael, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ystyried mewn "Cyflwr Da".

**Adnoddau a Chyllideb:** Mae crynodeb o'r cyllidebau ar gyfer Harbwr Aberdyfi i'w weld isod:

| ABERDOVEY HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2025 to 31 March 2026 - August 2025 Review | | |
|---|---|---|---|
| | BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/25 TO 31/3/26 | INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/24 TO 31/3/25 | OVER (UNDER) |
| Employees | 79,869 | 81,562 | 1,693 |
| | | | |
| Buildings | 25,840 | 27,086 | 1,246 |
| | | | |
| Transport | 760 | 806 | 46 |
| | | | |
| Supplies & Services | 8,490 | 19,274 | 10,784 |
| | | | |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Total Expenditure** | **114,959** | **128,728** | **13,769** |
| | | | |
| Income | (50,010) | (63,307) | (13,297) |
| Contribution from Reserves Tow | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Total Net** | **64,949** | **65,421** | **472** |

3.1 **Materion Allweddol Eraill:**

- **Swyddfa'r Harbwrfeistr**
  Mae cynlluniau drafft ar gyfer Swyddfa'r Harbwr newydd ar y cei wedi cael eu paratoi a chafwyd mewnbwn gan y Gwasanaeth Morwrol i sicrhau bod yr holl anghenion gweithredol yn cael eu diwallu. Mae'r cynlluniau arfaethedig yn cael eu trafod gydag adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd.

- **Bwi'r 'Fairway':**
  Prynwyd bwi, cadwyn, bloc, angor a golau newydd i'r sianel fordwyo (Fairway) ar gost o £7000.

- **Glanfa:**
  Mae cyllid wedi'i sicrhau i adnewyddu ac ailwampio rhannau o strwythur pren y lanfa. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau diogelwch, gan fod y prosiect yn cael ei gategoreiddio fel un 'risg uchel' oherwydd y lleoliad.

- **Y Brif Lithrfa:** Yn unol â'r cytundeb a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn gyda rhan-ddeiliaid, comisiynodd y gwasanaeth gontractwyr i dynnu tywod o'r llithrfa ar gost o £2000.
- Ni dderbyniwyd unrhyw adborth gan y cyhoedd yn ystod tymor yr haf ar ôl caniatáu trwydded alcohol i fusnes sy'n gweithredu ar y lanfa.
- Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae nifer o sglefrod môr 'Portuguese Man O'War' wedi golchi i'r lan ar hyd arfordir Gwynedd. Cynghorir y cyhoedd i beidio â chyffwrdd â nhw ac i gadw cŵn draw gan y gallant achosi pigiadau difrifol.

4. **ARGYMHELLION:**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| **Dyddiad:** | 14 Hydref 2025 |
| **Awdur:** | Yr Harbwrfeistr William Stockford |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Gweithredol |

1 **CEFNDIR**

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2 ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth.

2.2 Roedd lleoliadau angorfeydd unwaith eto'n profi'n heriol, gyda rhai angorfeydd wedi'u hadleoli oherwydd maint a phwysau'r llongau a'r angen i sicrhau gafael sicr ar wely'r afon. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cadw llongau ar y dŵr lle bynnag y bo modd yng nghanol mis Gorffennaf pan gofnodwyd cyflymder gwynt o 45 not yn yr aber. Gan weithio'n agos gyda'r contractwr lleol, gosodwyd cyfanswm o 83 o angorfeydd ar ddechrau'r tymor. Cafwyd tywydd mwy sefydlog yn ystod prif gyfnod y gwyliau ysgol, gan arwain at ddyddiau prysur ar draws yr harbwr a'r traeth. Fe weithiodd staff yn rhagweithiol i atal digwyddiadau cyn iddynt ddigwydd. Osgowyd sawl digwyddiad oherwydd bod staff yr harbwr a'r traeth yn cadw llygad agos. Mae'r gwasanaeth yn falch o fod wedi derbyn nifer o negeseuon o "werthfawrogiad a diolch", sy'n cydnabod eu hymrwymiad a'u hymdrechion i fynd 'tu hwnt' i'w dyletswyddau arferol.

Cafodd y brif lithrfa ei chlirio o dywod ar ddechrau'r tymor, fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol. Fodd bynnag, yn dilyn gwyntoedd gorllewinol cryf mae'r tywod wedi dychwelyd ers hynny.

2.3 Mae Dŵr Cymru bellach wedi trwsio'r gorchudd tyllau archwilio oedd mewn cyflwr gwael ar waelod y llithrfa ym Mae yr Eglwys, heb unrhyw gost i'r gwasanaeth.

## 3.0 <u>Materion Mordwyo</u>

3.1 Mae cwrs y brif sianel fordwyo i'r harbwr wedi aros yn sefydlog trwy gydol tymor yr haf, a neb wedi adrodd am unrhyw broblemau gyda'r llwybrau dynesu ar adeg cyhoeddi'r adroddiad.

3.2 Ar hyn o bryd mae dau 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' (*N to M*) ar waith yn Harbwr Aberdyfi.

*04/25 Bwi Bar: Rhif 2 Port: Fl.R.5s. Nid yw'r golau llywio ar y bwi yn gweithio.*

*05/25 Bwi Allanol Aberdyfi: Iso W.4s. Nid yw'r cymorth mordwyo yn ei leoliad cywir*

Rhagwelir y bydd y bwi Rhif 2 yn cael ei dynnu o'r lleoliad gan ei fod yn "farc tymhorol" a bydd y bwi allanol yn cael ei gywiro cyn diwedd mis Tachwedd

3.3 Mae modd gweld yr holl Hysbysiad i Forwyr cyfredol ar yr adran Forwrol ar wefan Cyngor Gwynedd: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and events/Maritime/Local-Notices-to-Mariners.aspx

3.4 Mae'r Gwasanaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch mordwyo cyn cynllunio unrhyw deithiau neu cyn i longau gyrraedd.

4.0 **Mae materion penodol wedi codi**

4.1 Yn dilyn difrod gan storm a olchodd y Bwi Allanol i'r lan, mae'r gwasanaeth yn buddsoddi mewn Bwi Fairway newydd sydd wedi'i gynllunio i fod yn haws i'w ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw. Bydd y bwi hwn o faint ac arddull gwahanol, a bydd ei berfformiad ym môr Aberdyfi yn cael ei fonitro'n agos. Ar ôl ymgynghori â chynghorau eraill sy'n profi amodau tebyg ar y môr, rydym yn hyderus y bydd y model hwn o fwi yn addas.

4.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa pawb bod y Bwi Allanol yn safle siartredig:

52°32.000'N 004°05.550W

Gofynnwn i bob morwr ddefnyddio'r ffigwr hwn i sicrhau mordwyo diogel tra bod y Bwi Allanol "Oddi ar ei Safle".

**5.0 Cynnal a Chadw**

5.1 Parhaodd ymdrechion i gadw tywod ar y traeth, drwy ymestyn yr estyll pren ar hyd y promenâd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adolygu fel rhan o raglen waith y gaeaf.

5.2 Mae arolygon bob pythefnos o holl asedau gwasanaeth wedi'u cynnal a'u cofnodi.

5.3 Roedd gwaith adweithiol yn cynnwys symud a chladdu carcasau ar hyd y blaendraeth. Mae'r gwasanaeth yn gofyn i unrhyw un sy'n adrodd am garcasau ar y blaendraeth roi gwybodaeth lleoliad manwl-gywir hefyd, fel What3Words neu Gyfeirnod y Grid Cenedlaethol.

**6.0 Digwyddiadau**

6.1 Adroddodd Clwb Hwylio Dyfi eu bod wedi cael tymor hwylio llwyddiannus gyda'r rhan fwyaf o'r rasys yn mynd ymlaen.

Cwblhawyd rhaglen hyfforddi a chyfarwyddo bositif iawn, a bu digwyddiad hwylio iau lleol yn llwyddiannus iawn. Roedd y gwasanaeth yn falch iawn o weld cynifer o bobl ifanc yn mwynhau ac yn datblygu gyda'u hwylio trwy gydol y tymor.

Hoffai'r gwasanaeth estyn ei ddiolch i'r clwb am eu cefnogaeth ar ac oddi ar y dŵr.

6.2 Cafodd Regata Cychod Hir Celtaidd Clwb Rhwyfo Aberdyfi ei chanslo oherwydd tywydd gwael. Fe wnaeth y tywydd gwael hefyd rwystro'r ymdrechion i aildrefnu.

6.3 Cafodd Regata Cynghrair Sgwlio Clwb Rhwyfo Aberdyfi ei chanslo hefyd oherwydd gwyntoedd cryfion.

6.4 O'r pedwar digwyddiad 'WeSwimRun' a gynlluniwyd, roedd un wedi'i gynnal ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, gydag un wedi'i ganslo.

6.5 Arweiniodd tywydd gwael hefyd at ganslo 'Ride Out' Clwb Jet Ski Bae Colwyn 2025. Fodd bynnag, aeth digwyddiad traeth ym Morfa Bychan yn ei flaen yn llwyddiannus, gan godi miloedd o bunnoedd ar gyfer elusennau lleol. Mae'r gwasanaeth yn diolch i'r trefnwyr am eu gwaith caled a'u hymdrechion.

6.6 Cafwyd penwythnos llwyddiannus arall o adloniant byw ar y Lanfa yng Ngŵyl Dyfi.

6.7 Ymwelodd yr ŵyl Barcud ag Aberdyfi am y tro cyntaf ac rydym yn falch o allu ychwanegu'r ŵyl i'r calendr digwyddiadau – bu'n ddigwyddiad poblogaidd iawn.

6.8 Mae'r gwasanaeth yn atgoffa pob trefnydd digwyddiadau o bwysigrwydd rhoi hysbysiad cynnar o unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig, neu unrhyw newidiadau i ddigwyddiadau presennol. Os rhoddir gwybod yn rhy hwyr, efallai na fydd digwyddiadau'n cael eu cymeradwyo neu efallai na chaiff newidiadau eu derbyn.

6.8.1 Wrth ystyried a ddylid cymeradwyo digwyddiad, bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw dyledus i'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn gosod unrhyw gyfyngiadau neu amodau sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a staff.

**3. ARGYMHELLION:**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.